

Iesu o flaen Peilat a Herod Antipas

Mathew 27: 11-26; Marc 15:2-15; Luc 23:1-25,13-26; Ioan 18:28—40



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 27: 11-26; Marc 15:2-15; Luc 23:1-25,13-26; Ioan 18:28—40	A thumbnail image showing a man in a purple robe (Jesus) standing before a man in a red and gold Roman military uniform (Pilate). Another man in a red and gold Roman military uniform (Herod Antipas) is standing to the right. The background is a stone wall. Text overlay includes 'Free Bible Images', 'Matthew 27:11-26', 'Mark 15:2-15', 'Luke 23:1-25', 'John 18:28-40', 'THE EASTER STORY', 'JESUS BEFORE PILATE AND HEROD ANTIPAS', and 'www.freebibleimages.org'.	
1 Yn gynnar iawn yn y bore, dyma'r prif offeiriaid a'r arweinwyr eraill, gyda'r arbenigwyr yn y Gyfraith a'r Sanhedrin cyfan, yn penderfynu beth i'w wneud. Dyma nhw'n rhwymo Iesu a'i drosglwyddo i Peilat.	A man in a red and gold Roman military uniform (Pilate) is sitting on a throne, holding a golden scepter. He is looking towards the left. A man in a purple robe (Jesus) is standing to the left, and a man in a red and gold Roman military uniform (Herod Antipas) is standing to the right. The background is a stone wall.	
2 Dyma Peilat yn dweud wrtho, "Felly, ti ydy Brenin yr Iddewon, ie?"	A man in a red and gold Roman military uniform (Pilate) is standing, looking towards the left. A man in a purple robe (Jesus) is standing to the left, and a man in a red and gold Roman military uniform (Herod Antipas) is standing to the right. The background is a stone wall.	
3 "Ti sy'n dweud," atebodd Iesu.	A close-up image of a man with long, dark, curly hair and a beard, looking slightly to the right. He is wearing a light-colored garment.	

-
- 4 Ond pan oedd y prif offeiriaid a'r arweinwyr yn cyflwyno eu hachos yn ei erbyn, roedd Iesu'n gwrthod ateb.



-
- 5 A dyma Peilat yn gofyn iddo, "Wyt ti ddim yn clywed y cyhuddiadau yma sydd ganddyn nhw yn dy erbyn di?" Ond wnaeth Iesu ddim ateb hyd yn oed un cyhuddiad! Doedd y peth yn gwneud dim sens i'r llywodraethwr. Yna dyma Peilat yn troi at y prif offeiriaid a'r dyrfa ac yn cyhoeddi, "Dw i ddim yn credu fod unrhyw sail i ddwyn cyhuddiad yn erbyn y dyn yma."



-
- 6 Ond roedden nhw'n benderfynol, "Mae'n creu helynt drwy Jwdea i gyd wrth ddysgu'r bobl. Dechreuodd yn Galilea, a nawr mae wedi dod yma."



-
- 7 "Felly un o Galilea ydy e?" meddai Peilat. Pan sylweddolodd hynny, anfonodd Iesu at Herod Antipas, gan ei fod yn dod o'r ardal oedd dan awdurdod Herod. (Roedd Herod yn digwydd bod yn Jerwsalem ar y pryd.)



-
- 8 Roedd Herod wrth ei fodd ei fod yn cael cyfle i weld Iesu. Roedd wedi clywed amdano ers amser maith, ac wedi bod yn gobeithio cael ei weld yn gwneud rhywbeth gwyrthiol.



-
- 9 Gofynnodd un cwestiwn ar ôl y llall i Iesu, ond roedd Iesu'n gwrthod ateb.



-
- 10 A dyna lle roedd y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn ei gyhuddo'n ffyrnig. Safodd Iesu'n dawel.



-
- 11 Yna dyma Herod a'i filwyr yn dechrau gwneud hwyl am ei ben a'i sarhau.



-
- 12 Dyma nhw'n ei wisgo mewn mantell grand, a'i anfon yn ôl at Peilat. Cyn i hyn i gyd ddigwydd roedd Herod a Peilat wedi bod yn elynion, ond dyma nhw'n dod yn ffrindiau y diwrnod hwnnw.



-
- 13 Aeth Peilat yn ôl i mewn i'r palas, a galwodd Iesu i ymddangos o'i flaen a dweud wrtho, "Felly, ti ydy Brenin yr Iddewon, ie?" Atebodd Iesu, "Dydy nheyrnas i ddim yn dod o'r byd yma. Petai hi, byddai fy ngweision wedi ymladd yn galed i'm cadw i rhag cael fy arestio gan yr awdurdodau Iddewig. Mae fy nheyrnas i yn dod o rywle arall."
"Felly rwy'ti yn frenin!" meddai Peilat.
Atebodd Iesu, "Y rheswm pam ges i fy ngeni, a pham dw i wedi dod i'r byd ydy i dystio i beth sy'n wir go iawn. Mae pawb sydd ar ochr y gwir yn gwrando arna i."



-
- 14 Dyma Peilat yn galw'r prif offeiriaid a'r arweinwyr eraill, a'r bobl at ei gilydd, a chyhoeddi ei ddedfryd: "Dw i wedi ei groesholi o'ch blaen chi i gyd, a dw i'n ei gael yn ddiuog o'r holl gyhuddiadau. Ac mae'n amlwg fod Herod wedi dod i'r un casgliad gan ei fod wedi ei anfon yn ôl yma. Dydy e ddim wedi gwneud unrhyw beth i haeddu marw. Felly dysga i wers iddo â'r chwip ac yna ei ollwng yn rhydd."



-
- 15 Dyma nhw i gyd yn gweiddi gyda'i gilydd, "Lladda fe!"



-
- 16 A dyma nhw'n dechrau gweiddi'n uwch, "Croeshoelia fe!"



-
- 17 Roedd Peilat yno'n eistedd yn sedd y barnwr pan ddaeth neges iddo oddi wrth ei wraig: "Mae'r dyn yna'n ddieuog — paid gwneud dim byd iddo. Ces i hunllef ofnadwy amdano neithiwr."



-
- 18 Adeg y Pasg roedd hi'n arferiad gan y llywodraethwr i ryddhau un carcharor — un roedd y dyrfa'n ei ddewis. Roedd un carcharor roedd pawb yn gwybod amdano — dyn o'r enw Barabbas. (Llofrudd a therfysgwr) Felly pan oedd y dyrfa wedi ymgasglu, dyma Peilat yn gofyn iddyn nhw, "Pa un o'r ddau dych chi am i mi ei ollwng yn rhydd? Barabbas, neu Iesu, yr un sy'n cael ei alw 'Y Meseia'?" Dyma nhw'n ateb, "Barabbas!"



-
- 19 "Felly, beth dw i i'w wneud gyda'r Iesu yma, sy'n cael ei alw 'Y Meseia'?" gofynnodd Peilat. Dyma nhw i gyd yn gweiddi, "Ei groeshoelio!"



20 Dyma Peilat yn gweld fod dim pwynt cario ymlaen am fod y dyrfa'n dechrau cynhyrfu. Felly galwodd am ddŵr, a golchi ei ddwylo o flaen pawb. "Dim fi sy'n gyfrifol am ladd y dyn yma," meddai. "Chi sy'n gyfrifol!"



21 Dyma'r bobl yn ateb gyda'i gilydd, "lawn, ni fydd yn gyfrifol am y peth — ni a'n plant!"



22 Felly dyma Peilat yn rhyddhau Barabbas iddyn nhw. Wedyn gorchymynnodd fod Iesu i gael ei chwipio, ac yna ei ddedfrydu i gael ei groeshoelio.



23 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



www.freebibleimages.org

24

